

**MESEIA**
*A CHARIAD*

# Sesiwn 5: Meseia a Chariad
## Arweiniad Grwpiau Bychan

### **Cynhesu** (cysylltu â'r thema)

*Rhannwch eich hoff stori serch a pam mae'n arbennig i chi?*

*Gall fod yn llyfr rhamantaidd, yn nofel, neu'n gyfres deledu.*

*Pa fath o negeseuon am gariad y mae'n ei gyfleu?*

### **Neges** (fideo cryno)

Fideo pump i saith munud gan Jos Edwards sy'n crynhoi stori fawr y Beibl a sut mae'n berthnasol i'n bywydau ni.

### **Darlleniadau beiblaidd** (i'w cyd-ddarllen)

*Ioan 1.1-18, Mathew 1.18-25, Mathew 4.12-17, Luc 19.1-10, Eseia 53.5, Rhufeiniaid 5.8, Ioan 20.11-18, Ioan 21.1-19*

### **Amser trafod**

- Beth yw'r prif wahaniaethau yn y ffordd mae ein diwylliant yn diffinio cariad a sut mae cariad Duw yn cael ei ddatguddio yn Iesu?
- Mae 'Meseia' yn golygu 'un wedi ei eneinio' ag olew fel brenin. Sut beth yw teyrnas Dduw os mai Iesu sy'n rheoli yno? Meddyliwch am y ffordd yr oedd yn trin pobl, ei ddysgeidiaeth, ei weinidogaeth iachau a.y.b.
- Sut fyddech chi'n ymateb i'r cwestiwn: Os oedd Iesu mor dda, pam fuodd e farw fel troseddwr?
- Sut mae symbol hagr y groes o ladd a phoenydio yn datgelu maint cariad Duw tuag atom?
- Pa ddarn o dystiolaeth dros yr atgyfodiad yw'r un pwysicaf i chi a pham?
- Pa wahaniaeth y mae'n gwneud os wnaeth Iesu atgyfodi go iawn?
- Ar y cyfan, sut mae'r rhan hon ar y Meseia wedi eich helpu i wneud synnwyr o fywyd?

### **Amser ymateb** (adlewyrchu a gweddïo)

Mae ein hangen dynol am gariad yn awydd positif. Mae'r Beibl yn cadarnhau hynny o'r dechrau i'r diwedd. Fodd bynnag, pan rydym yn methu cyfeirio'r awydd hwn at ei ffynhonnell wreiddiol rydym yn setlo am bethau eilradd sy'n ein siomi. Lle ydych chi wedi cael eich hun yn setlo am rywbeth eilradd?

### **Cynnwys dyddiol**

Parhewch â'r daith yr wythnos hon trwy ddarllen y penodau dyddiol o gynnwys ac Ysgrythur yn llyfr y gyfres gan Andrew Ollerton, *The Bible: A Stori that makes sense of life* (Hodder).

